ATODLEN 2

GWYBODAETH A DOGFENNAU SY'N OFYNNOL
AR GYFER COFRESTRU O DAN RAN 2 O'R MESUR

# RHAN 1

## Gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru: gwarchodwr plant

### Gwybodaeth ynghylch personau eraill: pob person arall

**14.** Enw llawn (ac unrhyw enw arall ac enw blaenorol), dyddiad geni a chyfeiriad pob person sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac sydd rywfodd arall yn bresennol yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad yn rheolaidd â phlant perthnasol.